

Llythyr Gweddi Penedeyrn, Mawrth/Ebrill 2020

Y ffordd orau o fod yn barod i weddio ym mhob sefyllfa yw cerdded yn agos at Grist.

Duw fo yn fy mhen
ac yn fy nealltwriaeth.

Duw fo yn fy llygaid
ac yn fy ngweld.

Duw fo yn fy ngheg
ac yn fy siarad.

Duw fo yn fy nghalon
ac yn fy meddwl.

Duw fo yn fy niwedd
ac yn fy ngadael.

Dduw Dad, diolchwn i ti bod dy fendith a dy ddaioni yn llifo allan at bawb fel pelydrau'r haul. Gofynnwn bod pobl yn troi eu calonnau at dy oleuni, fel mae llygad y dydd yn troi eu wyneb at yr haul. Bydded i lawer ddarganfod dy ras a dy bŵer a gorfoleddu yn dy ogoniant, fel haul ar ôl glaw.

Gofynnwn hyn yn enw ac yn haeddiant dy annwyl Fab, ein Harglwydd Iesu Grist .

Amen.

O Dad, gweddiwn i ti arwain pobl at ffydd yn lle ofn. Boed i bobl droi atat ti am gymorth a sicrwydd yn yr amseroedd ansicr, a chanfod Crist yn Graig tragwyddol. Amen.

Wrth weddio, rydym yn mynegi ein bod yn hollol ddibynnol ar Dduw. Rydym yn ymwybodol o fawredd, pŵer a chariad Duw, ac hefyd mor fychan a gwan ydym ni. Gallwn godi cri iddo am gymorth, a chael cysur ynddo tu hwnt i'n gallu drwy ei ras a'i drugaredd.

Rydym yn byw mewn byd ansicr a newidiol. Er ein bod wedi cael sicrwydd ers blynyddoedd yn ein bywydau bob dydd ym Mhrydain, mae'r sefyllfa ieched bresennol yn ein hatgoffa ni bod sicrwydd gyda Duw yn unig.

Wrth i ni ystyried heriau heddiw, gawn ni weddio dros les ysbrydol pobl yn ogystal â'u hanghenion a'i hieched corfforol. Gweddiwn i bobl droi at Grist a darganfod ei gysur, ei bresenoldeb gyda ni, a'r gobaith sicr o iachawdwriaeth drwyddo ef.

Gawn ni atgoffa ein hunain hefyd mai 'Duw sy'n rhoi'r tyfiant' (1 Corinthiaid 3:6-7), er mor galed ydym ni'n gweithio i ddod â'r efengyl i eraill. Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod faint o weithgareddau all barhau dros y misoedd nesaf, ond nid yw Duw yn rhoi'r gorau i weithio, a rhaid i ni ddal ati i weddio.

Rhywbeth i'w ystyried fis yma

Dyma eiriau olaf Dewi Sant, oedd yn byw mewn byd llawer mwy peryglus na'n byd ni: 'Byddwch lawen a cadwch eich ffydd a'ch crêd, a gwnewch y pethau bychain a welaist ac a glywaist gennyf fi.' Cyngor da i'w ddilynwyr wrth wybod bod ei farwolaeth yn agos, a chynghor da i ni hefyd ganrifoedd wedyn.

Cylch weddi Penedeyrn

Gweddïwn dros eglwys wahanol bob dydd yn ein Hardal Genhadaeth. Gweddïwn hefyd dros yr Eglwys gyfan, y byd, ein cymunedau lleol, y sâl a'r rhai sy'n dioddef, y rhai sy'n galaru a'r genedl.

Dydd Llun

- Llandrillo
- yr Eglwys

Dydd Mawrth

- Bala
- y byd

Dydd Mercher

- Cerrigydrudion a Llanfihangel
- y gymuned

Dydd Iau

- Cynwyd
- y sâl a'r rhai sy'n dioddef

Dydd Gwener

- Llandderfel
- y rhai sy'n galaru a chofio am y rhai fu farw.

Dydd Sadwrn

- Maerdy
- y genedl

Dydd Sul

- canolbwyntio ar ddiolchgarwch a moliant a dathlu ein ffydd

Materion gweddi mis yma

- dros y rhai bregus yn ein plith, iddynt fod yn ddiogel
- dros y rhai mae'r feirws yn peryglu eu bywoliaeth
- am ddoethineb i'n llywodraeth a dealltwriaeth i'n gwyddonwyr
- am nerth i'n gweithwyr iechyd
- dros y rhai sy'n sal gyda COVID-19, a phawb sy'n marw
- dros y rhai sydd wedi colli anwyliaid, a phawb sydd ag ofn
- am i Ysbryd Duw weithio pan na fedrwn ni
- i ba bynnag 'cloi' ('lockdown') fod yn fodd i ganfod heddwch a nerth, i chwilio a chael
- dros atal y feirws
- dros bawb sydd yn trio ail-adeiladu eu bywydau yn sgil llifogydd
- dros Barry ein Harchddiacon a dros y Strategaeth Wledig ar gyfer tyfiant eglwysig

Clywsom yn yr Efengyl am Iesu yn cwrdd â'r wraig o Samaria wrth ffynnon Jacob (Ioan 4). Mae Iesu yn dal i gynnig dŵr bywiol, ond dim ond pobl sychedig fydd yn dod ato i yfed. Gawn ni weddio am syched newydd am Dduw yn ein heglwysi, ein cymunedau, ein plant a'n pobl ifanc.

Helpa ni, Argwlydd, i yfed yn ddwfn o dy Ysbryd, nes bod ein bywydau'n cael eu trawsffurfio gan dy dosturi.